VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Y GYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Adroddiad Gwrthwynebu

**Am y cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro trwy:**

1. **Creu adeilad ysgol gynradd newydd â lle i 210, gyda dosbarth meithrin â 48 o leoedd rhan-amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws.**

2. **Trosglwyddo staff a disgyblion o adeilad presennol Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd.**

3. **Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4-11 oed i 3-11 oed.**



Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael mewn Braille.
Gellir trefnu bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

# Cynnwys

Cefndir ........................................................... 3

Adroddiad Ymgynghori ........................................... 3

Hysbysiad Statudol ................................................ 3

Gwrthwynebiadau i'r cynnig ..................................... 4

Atodiad A ........................................................ 5

## Cefndir

Cynhaliodd y Cyngor ddau ymarfer ymgynghori ar y cynnig rhwng 5 Mawrth 2018 a 20 Ebrill 2018 a rhwng 21 Mai 2018 a 9 Gorffennaf 2018.

Ym mis Mawrth 2018, lansiodd y Cyngor ymgynghoriad a oedd wedi'i fwriadu i fwrw golwg holistaidd ar y ddarpariaeth o ran ysgolion cynradd yng Ngorllewin y Fro. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu'r gymuned ynghylch y cynnig i ad-drefnu ysgolion a oedd yn cael ei gyflwyno dan adran 2.2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac a oedd yn ymwneud ag addasiadau rheoledig fel a ganlyn:

a) addasiad rheoledig i Ysgol Gynradd Llancarfan i symud safle'r ysgol o Lancarfan i adeilad ysgol newydd a fyddai'n cael ei godi ar dir i'r gogledd o'r llinell reilffordd yn y Rhws;

b) addasiad rheoledig i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Llancarfan ar y safle newydd o 126 i 210 o leoedd; ac

c) addasiad rheoledig i addasu ystod oedran isaf y disgyblion trwy ychwanegu dosbarth meithrin newydd a hwnnw'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser.

Yn ystod yr ymgynghoriad fe gododd aelodau o'r gymuned nifer o bryderon ynghylch yr effaith ar eu hardaloedd lleol, yn ogystal â chodi cwestiynau ychwanegol am y cynnig, gan geisio sicrhau bod eu barn yn cael ei deall.

O ganlyniad i adborth fe gynhaliodd y Cyngor ail ymgynghoriad a ddechreuodd ar 21 Mai 2018. Roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cynnwys rhagor o fanylion yn y ddogfen ymgynghori a rhoi'r cyfle i randdeiliaid ystyried hyn o fewn llinell amser ymgynghori newydd.

Roedd yr ymarferion ymgynghori'n egluro cynnig y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth gynradd yn y fro wledig.

Roedd y broses ymgynghori'n dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac roedd yn gyfle i bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn yr holl rai hynny a oedd â buddiant er mwyn iddi allu cael ei hystyried cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Adroddiad Ymgynghori

Cyhoeddwyd adroddiad ymgynghori yn dilyn yr ymarfer ymgynghori. Cafodd yr adroddiad ymgynghori ei ystyried gan Gabinet y Cyngor ar 17 Medi 2018, ac fe gytunodd y Cabinet y dylid cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori.

## Hysbysiad Statudol

Cafodd yr argymhelliad i gyhoeddi hysbysiad statudol ei gyflwyno i'r Cabinet ar 17 Medi ac fe'i hatgyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant er mwyn iddo'i ystyried ar 1 Hydref 2018. Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth bellach i gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig ar 15 Hydref 2018 ac fe gytunodd y dylid cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig.

Cafodd yr hysbysiad statudol ar y cynnig ei gyhoeddi ar 5 Tachwedd 2018 am gyfnod o 28 diwrnod er mwyn rhoi cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau. Daeth cyfnod yr hysbysiad statudol i ben ar 3 Rhagfyr 2018.

Cafodd yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg (www.valeofglamorgan.gov.uk) a'i osod ym mhrif fynedfeydd yr ysgol ac yn yr ardal a fyddai'n cael ei gwasanaethu gan leoliad newydd arfaethedig yr ysgol. Cafodd copïau o'r hysbysiad eu darparu ar gyfer yr ysgol i gael eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, llywodraethwyr ac aelodau o staff. Cafodd yr holl sefydliadau ac ymgyngoreion yr oedd yn ofynnol ymgynghori â hwy dan God Trefniadaeth Ysgolion 2013 naill ai gopi caled o'r hysbysiad neu ddolen mewn neges e-bost a oedd yn eu cyfeirio at yr hysbysiad a oedd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Cafodd holl dderbynyddion y neges e-bost gopi o'r llythyr a'r hysbysiad fel atodiad wrth y neges e-bost yn ogystal â dolen i'r hysbysiad ar y wefan.

Lle ceir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol, rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu sy'n crynhoi'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny.

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Cafodd yr awdurdod 102 o wrthwynebiadau unigol erbyn dyddiad cau'r hysbysiad statudol. Ceir crynodeb o'r themâu a materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr a'r ymateb gan Gyngor Bro Morgannwg yn Atodiad A. Ceir copi o'r adroddiad ymgynghori yn Atodiad B a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn Atodiad C.

Mae'r gwrthwynebiadau a gafwyd, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y sylwadau hyn yn gyfarwydd gan fod aelodau eisoes wedi darllen yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori. Atgoffir aelodau bod unigolyn yn gallu ailgyflwyno'i sylwadau blaenorol fel gwrthwynebiadau. Felly, dylai aelodau sicrhau bod y sylwadau hyn a gyflwynwyd fel gwrthwynebiadau'n cael eu hailystyried.

Trefnwyd fod yr holl wrthwynebiadau a gafwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ar gael yn ystafell yr Aelodau yn Swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg, Heol Holton, Y Barri, ynghyd â'r adroddiad ymgynghori, er mwyn i'r Aelodau allu pori drostynt.

**Thema gwrthwynebu 1**

**Mae ymatebwyr o'r farn mai cynnig i gau ysgol yw hwn, y cyfeirir ato fel proses i symud neu drosglwyddo. Roedd rhai gwrthwynebwyr o'r farn ei bod yn rhagrithiol galw hwn yn gynnig i drosglwyddo ysgol, gan ddatgan mai cynnig i gau ysgol ydyw.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 18, tudalen 17.

Defnyddiwyd y term symud yn yr ymarfer ymgynghori cyntaf. Gan gydnabod ychydig ddryswch a fynegwyd mewn perthynas â'r term hwn, mae'r ail ymarfer ymgynghori yn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn well fel addasiad rheoledig i Ysgol Gynradd Llancarfan, sef symud o'r ysgol bresennol i safle newydd.

Nid yw'r Cyngor yn cynnig cau Ysgol Gynradd Llancarfan. Y cynnig yw symud yr ysgol bresennol i safle newydd, a fydd yn cynnwys adeilad ysgol gwell a mwy o gapasiti, yn ogystal ag ystod oedran estynedig. Cyfeirir at addasiad rheoledig i safle ysgol yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, rhif dogfen cod statudol: 006/2013. Fel addasiad rheoledig, byddai'r cynnig hwn yn cadw'r ysgol bresennol, ei staff, ei disgyblion a'i llywodraethwyr. Byddai enw'r ysgol yn aros yr un fath a byddai'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad newydd.

**Thema gwrthwynebu 2**

**Nid yw cynigion eraill wedi cael eu hystyried. Mae ymatebwyr yn awgrymu nad yw opsiynau eraill wedi cael eu hystyried a bod y Cabinet wedi methu ag archwilio dewisiadau eraill gyda'r gymuned leol. Roeddent yn dadlau nad yw'r Cyngor wedi ymchwilio'n ddigonol i unrhyw ddewisiadau eraill ac y dylid bod wedi rhoi mwy o feddwl i ddulliau gweithredu eraill.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 19, tudalen 18, a mater 20, tudalen 21.1

Cafodd dewisiadau eraill yn lle'r cynnig eu hystyried ac roedd y rhain wedi'u cynnwys mewn mwy o fanylder yn yr ail ddogfen ymgynghori. Caiff y rhain eu nodi isod.

*Ymestyn Ysgol Gynradd Llancarfan*

Byddai Ysgol Gynradd Llancarfan yn cael ei hymestyn i fod yn ysgol mynediad un dosbarth, a fyddai'n cynnwys darpariaeth feithrin 48 lle er mwyn ymateb i'r cynnydd a ragwelir mewn niferoedd disgyblion yn ardal Gorllewin y

Fro. Byddai'r dewis hwn yn golygu y byddai gofyn ehangu'r ysgol bresennol ar ei safle presennol.

Nodwyd nad y model hwn yw'r model a ffafrir am y rhesymau canlynol:

- Mae'r safle yn safle cyfyngedig ac yn rhy fach i'w ehangu er mwyn bodloni'r gofynion. Mae Bwletin Adeiladu 99 (a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen ysgolion yr Unfed ganrif ar hugain) yn darparu fformwla er mwyn cyfrifo maint lleiaf safleoedd ysgol. Ar gyfer 126 o blant, dylai'r safle gofynnol fod rhwng $6736m^2$ a $7540m^2$. Fodd bynnag, mae safle'r ysgol yn llai na maint y safle a argymhellir, sef $3,700m^2$. Mae hyn yn cymharu â safle argymelledig o $10,000m^2$ ar gyfer ysgol sy'n cynnig lle i 210 o blant.

- Mae'r safle cyfyngedig ar lethr dros ran sylweddol o'r safle hefyd, sy'n cyfyngu ymhellach ar y posibiliadau er mwyn ehangu'r ysgol ar y safle presennol neu i ddarparu meysydd chwarae neu safleoedd dysgu allanol ar safle'r ysgol. Byddai modd adeiladu adeilad aml-lawr ar y safle ond nid yw hyn yn cyd-fynd â'r adeiladau a welir yn yr ardal, ac mae'n annhebygol iawn y byddai'r adran gynllunio, neu breswylwyr lleol, yn cefnogi hyn.

- Mae'r ysgol ar safle bach, sy'n cael ei wrthbwyso ychydig gan y defnydd a wneir o gyrtiau'r clwb tenis gerllaw. Nid yw'r pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach ar ogwydd yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar gyfer ysgolion cynradd, a ddefnyddiwyd ar gyfer pob adeilad ysgol newydd a gwblhawyd trwy gyfrwng rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

- Byddai gofyn cael y lle ychwanegol er mwyn ymateb i niferoedd cynyddol y disgyblion o ardal y Rhws. Byddai teithio i'r ysgol yn anodd, a byddai'n cyfrannu at dagfeydd traffig trwy'r pentref ac ar hyd y lonydd sy'n arwain at Lancarfan.

- Mae Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cynnwys adeilad un neu ddau lawr hollol hygyrch (Deddf Cydraddoldeb 2010), sy'n darparu'r holl swyddogaethau addysgol gofynnol mewn un adeilad, wedi'i leoli ar safle sy'n bodloni holl anghenion cyfredol cwricwlwm yr awyr agored. Ni fyddai modd cyflawni hyn o ystyried y cyfyngiadau ar y safle presennol yn Llancarfan. Er mwyn sicrhau cyllid dan Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofyniad bod protocolau adeiladau Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain yn cael eu bodloni.

- Nid oes lle na mynediad digonol ar y safle presennol er mwyn cynnal yr ysgol bresennol wrth i'r gwaith adeiladu gael ei wneud ar ysgol newydd.

*Ymestyn Ysgol Gynradd y Rhws*

Byddai Ysgol Gynradd y Rhws yn cael ei hehangu ar ei safle presennol er mwyn cynnwys estyniad a fyddai'n cynnwys 8 o ystafelloedd dosbarth a

neuadd fwyta. Byddai gofyn adeiladu adeilad pellach wrth ymyl yr estyniad a adeiladwyd yn 2009, a byddai angen ailfodelu'r lleoedd dosbarth presennol ac ymestyn y cyfleusterau meithrin presennol.

Nodwyd nad y model hwn yw'r model a ffafrir am y rhesymau canlynol:

- Caiff yr adeiladau ychwanegol eu hadeiladu gaeau chwarae, gan beri i'r safle ymddangos a theimlo'n orlawn;

- Gallai'r ffaith bod yr ysgol bresennol yn adeilad rhestredig gradd 2 beri cyfyngiadau dylunio ac oedi;

- Oherwydd y lle allanol cyfyngedig sydd ar gael yn yr ysgol, mae gwaith dichonolrwydd cychwynnol wedi amlygu'r ffaith y bernir bod y safle yn rhy fach, yn unol â chyfrifiadau Bwletin 99 Fframwaith Briffio ar gyfer Prosiectau Ysgolion Cynradd. Mae'r Bwletin yn nodi bod angen 28,650 $m^2$ ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnig lle i 630 o blant ac uned feithrin. Maint safle Ysgol Gynradd y Rhws yw 14,600 $m^2$, felly mae 14,050 $m^2$ yn fyr o'r lle gofynnol ar gyfer ysgol gynradd sy'n cynnwys 630 lle. Byddai hyn yn cyfyngu ar ddyluniad a chynllun safle unrhyw estyniad arfaethedig;

- Dan ofynion y Bwletin Adeiladu, mae safle Ysgol Gynradd y Rhws yn rhy fach ar hyn o bryd ar gyfer poblogaeth gyfredol yr ysgol. Byddai ar ysgol â chapasiti ar gyfer 375 o blant angen rhwng 16,315 a 18,115 $m^2$. 14,648 yw arwynebedd Ysgol Gynradd y Rhws ar hyn o bryd, sy’n golygu ei bod yn is na’r safon ofynnol.

- Trwy ymestyn capasiti yr ysgol, bydd y tagfeydd traffig a welir yn y pentref ar hyn o bryd yn cynyddu ar adegau allweddol yn ystod y dydd;

- Ni cheir unrhyw gyfle i roi sylw i sialensiau mynediad hanner dosbarth yn Ysgol Gynradd Llancarfan, na'r gostyngiad a ragwelir yn niferoedd y disgyblion;

- Byddai adeiladu ar y safle presennol yn amharu ar y dysgu am o leiaf 9 mis, gan na fyddai'r holl waith yn cael ei wneud yn ystod y gwyliau ysgol. Gallai hyn effeithio ar ddeilliannau dysgu;

- Byddai'r ysgol fwy yn rhy fawr, gan achosi capasiti gwag o 19% yn 2021. Efallai y bydd rhieni o'r datblygiadau newydd yn dewis caniatáu i'w plant barhau i fynychu eu hysgolion presennol hefyd. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r holl alw a ragwelir yn cael ei wireddu yn y tymor byr, a byddai hyn yn cynyddu'r potensial ar gyfer capasiti gwag yn yr ysgol. Wrth adeiladu neu ymestyn ysgolion, bernir bod angen ymestyn neu adeiladu mewn lluosrifau o 30 ar gyfer ysgol sy'n derbyn un, dau a thri dosbarth o saith grŵp blwyddyn, sef derbyn i flwyddyn 6. Mae hwn yn fodel darparu mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur ysgol a chynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn well, gan negyddu addysgu oedrannau cymysg a chan gynorthwyo gyda rheoli cyfyngiadau statudol i ddosbarthiadau o 30 o blant.

*Adeiladu ysgol newydd yn y Rhws, heb wneud unrhyw newidiadau i Ysgol Gynradd Llancarfan*

Byddai ysgol newydd a fyddai'n cynnig 210 lle yn cael ei hadeiladu ar safle 1 hectar yn natblygiad Rhoose Point.

Ni fyddai gofyn newid y cyfleusterau na'r capasiti presennol yn Ysgol Gynradd y Rhws , ond byddai'n rhaid gwneud gwaith i roi sylw i'r materion a amlygwyd yn arolwg cyflwr 2014.

Rhagwelir y byddai'r ysgol newydd yn perthyn i ffederasiwn gydag Ysgol Gynradd bresennol y Rhws. Byddai'r ffederasiwn yn cael budd o rannu pennaeth o ansawdd uchel, tîm arwain a chorff llywodraethu, gan ganiatáu hyblygrwydd ychwanegol a gweithgarwch rhannu adnoddau, gan alluogi gweithgarwch arbed costau ychwanegol. Byddai'r ysgolion yn parhau i fod ar wahân, gan gynnal ei dyraniadau cyllideb unigol ei hun, a byddent yn adrodd canlyniadau ar wahân.

Nodwyd nad y model hwn yw'r model a ffafrir am y rhesymau canlynol:

- O ystyried y galw a ragwelir am le ar gyfer 135 o blant, byddai ysgol a fyddai'n cynnwys 210 lle yn cyflwyno niferoedd arwyddocaol o leoedd gwag, a cheir potensial na fyddai'n cynrychioli rheolaeth effeithiol o adnoddau neu safleoedd ysgolion.

- Nid oes unrhyw botensial i roi sylw i sialensiau mynediad hanner dosbarth yn Ysgol Gynradd Llancarfan.

- Bydd creu ffederasiwn rhwng yr ysgol newydd a'r ysgol bresennol yn gofyn am arweinyddiaeth ragorol. Bydd angen cynnwys gwaith cynllunio olyniaeth pellach er mwyn sicrhau bod y berthynas hon yn cael ei chynnal dros y tymor canolig a'r tymor hir.

- Bydd angen i'r arweinwyr reoli'r ddwy ysgol ar draws safleoedd sydd tua 0.5 milltir i ffwrdd o'i gilydd, a fyddai'n cyflwyno cymhlethdod ychwanegol.

- Byddai gofyn cael cyllid refeniw ychwanegol o tua £725,000 er mwyn gweithredu ysgol a fyddai'n cynnwys 210 lle. Byddai angen sicrhau hwn o fewn y Gyllideb Ysgolion Unigol gyfredol, gan leihau'r cyllid sydd ar gael i ysgolion eraill ym Mro Morgannwg.

*Lleihau maint Ysgol Gynradd Y Rhws i 210 o leoedd, gan ychwanegu ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws ar y tir i'r gogledd-orllewin o'r rheilffordd, a gadael Ysgol Gynradd Llancarfan yn Llancarfan.*

Capasiti presennol ysgol gynradd Y Rhws yw 375 o leoedd mewn 8 ystafell ddosbarth yn y bloc ysgol gwreiddiol, bloc ystafelloedd dosbarth deulawr sy'n

cynnwys pedair ystafell ddosbarth, ystafell ddosbarth ddwbl dros dro a bloc meithrin ar wahân. 374 yw'r nifer sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Byddai modd lleihau'r capasiti i 315, ysgol mynediad un dosbarth a hanner, trwy gael gwared ar yr ystafell ddosbarth dros dro a chaniatáu i'r safle hwn fod yn lle chwarae unwaith eto. Amcangyfrifir y byddai'n costio tua £25,000 i gael gwared ar yr ystafell ddosbarth dros dro.

Wrth adeiladu neu ymestyn ysgolion, bernir bod angen ymestyn neu adeiladu mewn lluosrifau o 30 ar gyfer ysgol mynediad un, dau a thri dosbarth o saith grŵp blwyddyn, sef derbyn i flwyddyn 6. Cydnabyddir yn eang bod hwn yn fodel cyflawni mwy effeithlon a chynaliadwy sy'n rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur yr ysgol a chynllunio'r cwricwlwm yn well, gan ddileu'r angen am ddysgu oedrannau cymysg a chynorthwyo wrth reoli cyfyngiadau maint dosbarthiadau statudol o 30 o blant.

Byddai modd lleihau'r capasiti ymhellach trwy ail-ddynodi ystafelloedd presennol bach neu lai addas yn y prif adeilad er mwyn lleihau'r capasiti i 210. Byddai modd defnyddio'r hen ystafelloedd dosbarth fel llyfrgell ar gyfer yr ysgol, ystafell TG, ystafell CPA, ystafelloedd grŵp/AAA neu ar gyfer addysgu peripatetig e.e. cerddoriaeth.

Byddai angen lleihau capasiti yr adeilad meithrin hefyd, er mwyn cyd-fynd ag ysgol mynediad 1 dosbarth newydd. Byddai modd cyflawni hyn trwy ail-ddynodi safleoedd, ac ni fyddai cost i hyn.

Byddai'r costau i ail-ddynodi ystafelloedd dosbarth yn dibynnu ar raddau'r gwaith i'w gyflawni, ond gallai fod yn hyd at £80,000 ar gyfer addasiadau amrywiol i bedair ystafell ddosbarth os bydd gofyn cael TG a phwyntiau trydan ychwanegol, ynghyd ag adnoddau a dodrefn rhydd a gosodedig newydd.

Trwy leihau'r capasiti, byddai cyllideb yr ysgol yn lleihau hefyd, ac er y byddai'r costau staffio yn is, ni fyddai'r costau o gynnal a chadw a rhedeg yr adeilad yn lleihau'n sylweddol, hyd yn oed pe byddai'r adeilad dros dro yn cael ei waredu.

Yn y bôn, ni fyddai'r galw am leoedd cynradd yn ardal Y Rhws yn cael eu bodloni, ac ni fyddai nifer ddigonol o leoedd cynradd er mwyn bodloni'r galw yn y dyfodol. Ar sail amcanestyniadau presennol i gynnwys datblygiadau tai yn y Rhws ar dir i'r gogledd-orllewin ac ar dir i'r gogledd-ddwyrain o'r rheilffordd, byddai gofyn cael 465 o leoedd ysgol er mwyn bodloni'r galw dros y 5 mlynedd nesaf. Dim ond 420 o leoedd ysgol i wasanaethu'r ardal y byddai'r model hwn yn eu cynnig. Ni fyddai nifer ddigonol o leoedd i fodloni'r galw gan ddatblygiad tai newydd yn yr ardal.

Byddai gostyngiad yng nghapasiti yr ysgol yn golygu y byddai gofyn i'r Cyngor ddilyn proses statudol o ran gweithgarwch ymgynghori a chynigion statudol. Byddai gorfod cyfiawnhau cynnig nad yw'n bodloni'r galw am leoedd ysgol mewn ardal yn peri problemau, ac ni fyddai'n bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Ni fyddai ffederaleiddio'r ddwy ysgol yn cael ei ystyried fel dewis posibl; mae'r Pennaeth profiadol yn ysgol Gynradd Y Rhws wedi ymddeol a bydd Pennaeth newydd, parhaol yn cychwyn yn y rôl ym mis Ionawr 2019. Mae ffederaleiddio yn gofyn am Bennaeth profiadol o ganlyniad i'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chael 2 ysgol neu fwy ar wahanol safleoedd.

Ni fyddai'r dewis yn golygu y byddai modd cyflawni'r cynnig i drosglwyddo ysgol Llancarfan. Mae gan yr ysgol 25 o leoedd gwag (19.8%), a disgwylir i'r ffigwr hwn fod i 28 lle (22%) dros y bum mlynedd nesaf. Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion er mwyn cyflawni targed y cytunwyd arno ac sy'n ofyniad a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y darparir addysg mewn ffordd effeithlon. Yn y sector cynradd, mae hyn yn cyfateb â tharged a gytunwyd o heb fod dros 10%.

Bydd gostyngiad mewn niferoedd disgyblion yn cael effaith niweidiol ar allu'r ysgol i reoli ei chyllideb. Byddai gostwng y nifer ar y gofrestr i 210 yn lleihau cyllideb yr ysgol gymaint â £397,815 ar sail AWPU (Uned Disgybl wedi'i Phwysoli yn ôl Oed). Mae gan yr ysgol nifer o gostau sefydlog sy'n werth £267,515 at ei gilydd, na fyddent yn lleihau pe byddai nifer y disgyblion yn is. Mae'r rhain yn cynnwys y pennaeth, costau gweinyddol, gofalwr, y safle, cytundebau lefel gwasanaeth a chontractau allanol. Cydnabyddir y byddai gostyngiad bach mewn costau ynni o ganlyniad i'r cam o waredu'r adeilad dros dro.

Mae'r ysgol yn cael swm ychwanegol o £48,677 at y £267,515 ar ffurf costau sefydlog tuag at yr adeiladau a'r safle, sy'n seiliedig ar niferoedd y disgyblion. Fel yr uchod, byddai'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion yn lleihau'r elfen hon, fodd bynnag, ni fydd yr adeiladau eu hunain yn newid. Fel adeilad rhestredig, mae gofyn gwneud gwaith cynnal a chadw ychwanegol yn yr ysgol hefyd.

Costau sefydlog cyfartalog ysgol sy'n cynnwys 210 o leoedd yw £189,282. Mae hyn £78,233 yn llai drud na'r gost o redeg Ysgol Gynradd Y Rhws gyda 210 o leoedd, o ystyried y safle presennol.

Er mwyn bodloni'r angen am leoedd ar gyfer disgyblion, byddai modd lleihau Ysgol Gynradd Y Rhws i ysgol sy'n cynnwys 255 o leoedd, yn hytrach na 210. Byddai hyn yn golygu y byddai cyllideb yr ysgol yn lleihau o hyd, gymaint â £289,320.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y goblygiadau i'r refeniw ar sail fformwla cyllido ysgolion y brif ffrwd rhwng y cynnig presennol o drosglwyddo Llancarfan i safle newydd sy'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws, a chynnal Ysgol Gynradd Y Rhws gyda'i chapasiti presennol o 375 o leoedd, o'i gymharu â'r dewis o gynnal Ysgol Gynradd Llancarfan, gan leihau capasiti Ysgol Gynradd Y Rhws ar ei safle presennol i 255 o leoedd, a chreu ysgol newydd a fyddai'n cynnwys 210 o leoedd yn Y Rhws, er mwyn bodloni'r galw a ragwelir.

| **Cynnig Presennol** | **Cost Refeniw** | **Y Dewis Uchod** | **Cost Refeniw** |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Y Rhws (375) | £ 1,262,651 | Ysgol Gynradd Llancarfan | £ 544,631 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Newydd 210 | £ 931,028 | Ysgol Gynradd Y Rhws (255) | £ 1,208,767 |
| | | £ 931,028 | |
| **CYFANSWM** | £ 2,193,679 | **CYFANSWM** | **£ 2,684,426** |
| **Gwahaniaeth** | | £ 490,747 | |

Mae'r tabl yn amlygu'r ffaith y byddai'r dewis a amlinellir uchod yn cynyddu'r costau refeniw gymaint â £490,747 o'i gymharu â'r cynnig presennol o drosglwyddo Ysgol Gynradd Llancarfan i safle mwy o faint yn Y Rhws a chynnal Ysgol Gynradd Y Rhws gyda'i chapasiti presennol.

- Yr unig ffordd o sicrhau gostyngiad o 374 o ddisgyblion ar y gofrestr i gapasiti newydd o 255 o blant yn Ysgol Gynradd Y Rhws yw trwy leihau'r nifer derbyn ar gyfer y niferoedd i'r dosbarth derbyn fesul cam. Ni fyddai maint y gostyngiad yn cael ei wireddu tan tua 2026 yn dilyn gwaith ymgynghori priodol am Bolisi Derbyn yr Ysgol.

- Y rhif derbyn presennol i Ysgol Gynradd Y Rhws yw 53. Pe byddai'r ysgol yn cael ei lleihau i ysgol o 255 o leoedd, 36 fyddai'r rhif derbyn. Mae rhif derbyn o 36 yn ei gwneud hi'n anodd rheoli trefniadaeth dosbarthiadau, strwythur yr ysgol, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm, a byddai'n golygu y byddai angen addysgu oedrannau cymysg wrth ystyried y cyfyngiadau statudol i faint dosbarthiadau, sef 30 o blant.

- Byddai angen llunio dalgylchoedd newydd er mwyn rhannu poblogaeth disgyblion Y Rhws mewn ffordd a fyddai'n cyd-fynd â'r capasiti newydd yn y ddwy ysgol, neu y byddai'r ddwy ysgol yn rhannu'r dalgylch, a blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ysgol newydd ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r dalgylch.

*Cynnal y sefyllfa fel ag y mae*

Mae Llancarfan yn cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd a bloc ar wahân a adeiladwyd yn 2000, ynghyd â dau floc ar wahân o ystafelloedd dosbarth dros dro. Lleolir yr ysgol ar safle bach ac mae'r mynediad iddi yn anodd. Nid oes gan yr ysgol ddarpariaeth feithrin ac mae ganddi nifer derbyn o 18, sy'n golygu bod gofyn addysgu oedrannau cymysg.

Lleolir yr ysgol ym mhentref Llancarfan, sy'n darparu ethos ysgol fach. Mae'r plant yn mynychu o nifer o wahanol ardaloedd ac o blith y rhain, mae 29% yn byw yn nalgylch yr ysgol. Mae poblogaeth dalgylch yr ysgol yn cynnwys 55 o ddisgyblion, o'i gymharu â'r capasiti ar gyfer 126 o blant. Mae'r ysgol yn y grŵp melyn o fewn system Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r gost refeniw fesul plentyn yn yr ysgol yn uchel o'i chymharu â'r gost gyfartalog yn y Fro.

Ni ystyrir bod cynnal y sefyllfa fel ag y mae yn ddewis posibl. Ar sail yr amcanestyniadau presennol, erbyn 2023, disgwylir y bydd diffyg o 90 o leoedd cynradd yn ardal Y Rhws. Yn ogystal, mae nifer y plant sy'n byw yn Llancarfan yn gostwng, a bydd hyn yn herio effeithlonrwydd a chynaladwyedd Ysgol Gynradd Llancarfan ymhellach. Yn ôl y gyfraith, mae gofyn i Gyngor

Bro Morgannwg sicrhau darpariaeth ddigonol o ran lleoedd ysgolion o fewn ei derfynau, er mwyn bodloni'r galw. O ystyried yr uchod, ni fernir bod y dewis hwn yn ddewis amgen posibl.

Byddai'r cynnig a'r dewis a ffafrir o adeiladu adeilad newydd ar leoliad newydd yn caniatáu datblygiad pellach cwricwlwm a fyddai'n llawn profiadau cyfoethog sy'n herio plant, sy'n codi lefel eu cyrhaeddiad ac sy'n meithrin perthnasoedd rhyngbersonol. Bydd hyn yn cynorthwyo datblygiad darpariaeth feithrin a fydd yn ymestyn yr ysgol i ddarparu addysg i ddisgyblion 3 – 11 oed, gan ganiatáu i bob dysgwr sicrhau llwyddiant.

**Thema gwrthwynebu 3**

**Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu bod y cynnig yn tynnu ethos gwledig yr ysgol i ffwrdd ac yn mynd yn groes i Gynllun Addysg Wledig Llywodraeth Cymru. Roeddent yn dadlau mai ysgol wledig fechan ydyw ac y dylai aros felly. Fel ysgol goedwig bresennol, bydd plant ar eu colled os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Roedd ymatebwyr o'r farn nad yw'r cyfleusterau hamdden a/neu allgyrsiol yn cael eu gwerthfawrogi, e.e. mannau dysgu awyr agored, nentydd coedwigol ac ati.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym materion 39, tudalen 41, a 44, tudalen 45.

Mae'r Cyngor yn llwyr gydnabod y bydd gan rieni nifer fawr o ffactorau i'w hystyried wrth wneud cais am ysgol ar gyfer eu plentyn. Ar gyfer rhieni sy'n dymuno ysgol wledig, mae ysgolion eraill mewn lleoliadau gwledig y gallai rhieni ddewis megis Llan-gan, Llanfair, Pendeulwyn, Llanbedr y Fro, Llansanwyr, St David's, Y Wig a Marcroes ac Ysgol Gynradd Sant-y-brid yr Eglwys yng Nghymru. Gall rhieni wrth gwrs fynegi dewis dros ysgol benodol ac mae'r Cyngor yn falch iawn o'r ffaith bod mwy na 90% o rieni yn llwyddo i gael lle yn yr ysgol sy'n ddewis cyntaf iddynt. Fodd bynnag, ni ellir sicrhau y cynigir lle i'r ysgol sydd ar frig rhestr pob plentyn, hyd yn oed os yn cyflwyno cais yn brydlon.

Fel rhan o'r broses ddylunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd, bydd pob safle ysgol newydd yn cynnwys ardal goedwig er mwyn sicrhau bod y profiad dysgu yn manteisio i'r eithaf ar yr awyr agored. Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Goedwig Cymru i sicrhau bod darpariaeth Ysgol Goedwig gynaliadwy ar gael a gefnogir gan rwydwaith genedlaethol a fydd yn meithrin y gwaith o ddatblygu projectau, cynnig cyngor, darparu adnoddau, llywio arfer gorau a pharhau i gynnig datblygiad proffesiynol parhaus yn yr ysgol. Yn ôl y sefyllfa ym mis Hydref 2018, cadarnhaodd Ysgol Gynradd Llancarfan nad oeddent yn bodloni'r meini prawf i fod yn Ysgol Goedwig; fodd bynnag, roedd staff yn mynd i fynd ar gwrs hyfforddi achrededig. Nid yw lleoliad ysgol yn ffactor wrth benderfynu ynghylch statws Ysgol Goedwig.

Mae nifer o enghreifftiau o ysgolion modern sydd ag ardaloedd awyr agored effeithiol dros ben sy'n cael eu defnyddio'n arbennig o dda er budd dysgu ac addysg disgyblion. Yn y Fro, Ysgol y Ddraig yw'r ysgol gynradd ddiweddaraf i'w hadeiladau ac, o fewn llai da dwy flynedd, mae arweinwyr a staff yr ysgol wedi llunio ardaloedd dysgu awyr agored effeithiol dros ben.

Bydd y gweithgareddau allgyrsiol presennol ar gael yn yr ysgol ar ôl iddi drosglwyddo. Bydd ysgol fwy yn gallu cynnig darpariaeth gwricwlaidd ehangach ac ystod fwy o gyfleoedd allgyrsiol i blant. Y bwriad yw y byddai'r holl wasanaethau presennol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned yn parhau pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

**Thema gwrthwynebu 4**

**Roedd ymatebwyr yn cwestiynu niferoedd y disgyblion, gan ddatgan bod y niferoedd rhagamcanol yn anghywir. Roeddent yn mynnu bod y Cyngor wedi goramcangyfrif y galw am leoedd o'r datblygiad newydd.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 6, tudalen 8.

Mae methodoleg y Cyngor er mwyn llunio amcanestyniadau disgyblion yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Archwilio ac mae'n seiliedig ar ddefnyddio cymarebau ysgolion Dalgylch/Bwydo a chyfraddau goroesi cohortau (y berthynas rhwng nifer y disgyblion mewn un cohort mewn un blwyddyn ysgol, a'r un cohort yn y flwyddyn ysgol ddilynol). Mae amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar dystiolaeth ac maent hefyd yn ystyried data cyfredol a hanesyddol ysgol, cyfraddau genedigaethau, datblygiadau tai a gynlluniwyd a symudiadau traws-dalgylch. Adroddodd Arolygiad yn 2013 gan Estyn am Wasanaethau Bro Morgannwg ar gyfer Plant a Phobl Ifanc "Mae gan yr awdurdod systemau priodol mewn grym er mwyn rhagweld niferoedd disgyblion a'r gofynion o ran nifer y lleoedd mewn ysgolion gan ddefnyddio ystod addas o ddata".

O ran datblygiadau tai, cyfrifir nifer ragamcanol y disgyblion sy'n dod o ddatblygiad gan ddefnyddio fformwla sy'n deillio o ddata cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Caiff y fformwla ei gynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio. Ar lefel feithrin, caiff hyn ei gyfrifo ar sail 0.1 disgybl fesul uned a 0.287 fesul uned ar lefel gynradd. Byddai'r datblygiadau o 350 o dai yn arwain at 35 o blant meithrin a 97 o blant cynradd. Ar gyfer y 700 o unedau sy'n cael eu hadeiladu at ei gilydd, byddai'r Cyngor yn disgwyl gweld tua 70 o blant meithrin a 194 o blant cynradd.

Mae'r ffactor ynghylch nifer y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai ym Mro Morgannwg yn debyg i'r fethodoleg a ddefnyddir gan awdurdodau lleol eraill. Mae'r niferoedd yn ddibynnol ar ddemograffeg ardal y Cyngor. Mae methodoleg y Cyngor er mwyn cyfrifo niferoedd y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai ac amcanestyniadau disgyblion yn gyson ac mae'r Cyngor yn teimlo'n fodlon ei bod yn adlewyrchu'r amodau cyfredol at ddibenion cynllunio lleoedd ysgol.

**Thema gwrthwynebu 5**

**Roedd ymatebwyr yn honni na fyddai holl rieni'r plant yn Llancarfan yn dewis trosglwyddo eu plant i'r safle newydd. Bydd pobl yn peidio â symud i'r ysgol newydd, ac felly mae'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd yn anghywir.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 11, tudalen 11.

Mae'r ffigurau ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan ar safle newydd yn Y Rhws yn seiliedig ar niferoedd presennol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr arolwg a gynhaliwyd er mwyn darganfod dymuniadau rhieni ynghylch symud i safle newydd yr ysgol. Gellir gweld yr arolwg yn atodiad G yr Adroddiad Ymgynghori. Fodd bynnag, er bod gan rieni yr hawl i fynegi eu dewis fel rhieni a newid ysgolion, ni ellir gwarantu y bydd modd bodloni'r dewisiadau hynny. Mae derbyn cais i drosglwyddo i ysgol amgen yn dibynnu ar y ffaith bod lleoedd ar gael mewn ysgolion eraill. Er mai'r gobaith yw y bydd pob disgybl yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud i safle newydd, dylid nodi bod argaeledd lleoedd cynradd er mwyn hwyluso trosglwyddiad i ysgol amgen yn gyfyngedig yng Ngorllewin y Fro.

**Thema gwrthwynebu 6**

**Roedd ymatebwyr yn honni bod cyfathrebu ynghylch yr ymgynghoriad a'r cynigion wedi bod yn annigonol, a bod y cynnig a'r broses ymgynghori'n ddiffygiol. Roedd ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd gofal i ymgynghori'n briodol yn unol â'r Cod.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 16, tudalen 13.

Mae'r Cyngor yn deall pryderon rhieni, preswylwyr a disgyblion mewn perthynas â'r cynnig cyntaf a gyflwynwyd gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor yn fodlon bod ei ddyletswydd gofal dan God Trefniadaeth Ysgolion 2013 wedi cael ei chyflawni, a'i fod wedi mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd hon mewn rhai achosion. Er nad oedd yn ofynnol cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, fe wnaeth y Cyngor hynny er mwyn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i bryderon yr holl ymgyngoreion.

Mynegwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyntaf ynghylch yr effaith ar yr ardal leol, yn ogystal â chwestiynau ychwanegol am y cynnig. Felly, cynhaliwyd ail ymarfer ymgynghori er mwyn rhoi sylw i bryderon ac er mwyn cynnig mwy o fanylder yn y ddogfen ymgynghori am y cynnig, gan gynnig y cyfle i randdeiliaid ystyried hyn cyn dyddiad cau newydd ar gyfer yr

ymgynghoriad. Roedd peth o'r wybodaeth ychwanegol yn mynd i'r afael â materion megis dyfodol adeilad yr ysgol, Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i ddiweddaru, mwy o fanylder o ran y dewisiadau eraill a gafodd eu hystyried ac ychwanegu eglurder at y modd y cymhwyswyd adran 2.2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) fel y mae'n berthnasol i'r addasiad rheoledig i'r ysgol.

Ymgynghorwyd ag Estyn am y cynnig ac maent wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol i'r cynnig, gan ddynodi bod Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn dros y cynnig i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar safle newydd yn Y Rhws.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chan gydymffurfio â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ceisiwyd cyngor cyfreithiol gan adran gyfreithiol y Cyngor wrth baratoi'r ddogfen, ynghyd â chanllawiau priodol gan Lywodraeth Cymru yn ôl y gofyn.

Mae'r Cyngor yn teimlo'n fodlon ei fod wedi dilyn y gofynion statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion i ymgynghori ynghylch y cynnig â'r holl randdeiliaid perthnasol.

Er bod canran uchel o ymatebwyr i'r ymarfer ymgynghori yn erbyn y cynnig, nid yw hyn yn tynnu oddi wrth brif ddiben y cynnig, sef sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Gwireddir yr uchelgais hwn trwy sicrhau bod ysgolion yn dal yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion cymunedau lleol ac wedi'u hofferu â'r amgylcheddau dysgu gorau posibl. Mae'r Cyngor yn hyderus y bydd y cynnig i symud Ysgol Gynradd Llancarfan i safle newydd yn y Rhws yn cefnogi'r nodau hyn.

**Thema gwrthwynebu 7**

**Fe ailddatganodd ymatebwyr nad oedd pryderon a godwyd wedi cael ymateb a/neu eu bod wedi cael eu hanwybyddu.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Roedd yr adroddiad ymgynghori'n darparu ymateb cynhwysfawr i'r materion a godwyd gan ymgyngoreion fel rhan o'r broses ymgynghori. Rhoddodd y Cabinet ystyriaeth lawn i'r adroddiad ac fe gytunodd y dylid cyhoeddi hysbysiad statudol am y cynnig. Cyn cytuno â hyn, darparwyd lefel ychwanegol o ystyriaeth trwy gyfeirio'r cynnig yn ôl at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar gyfer trafodaeth bellach. Er mwyn sicrhau bod pob barn yn cael ei hystyried yn llawn, roedd rhai aelodau o'r Cabinet gan gynnwys Arweinydd y Cyngor yn bresennol yn y Pwyllgor Craffu hwn er mwyn gwrando'n uniongyrchol ar eu pryderon. Roedd lefel uchel o ohebiaeth uniongyrchol rhwng y Cyngor a'r cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r tu hwnt hefyd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn a gohebu uniongyrchol ag aelodau a swyddogion. Roedd yr holl sylwadau ar gael i'r holl benderfynwyr fel rhan o'r broses ar gyfer ystyriaeth.

Mae'r Cyngor yn credu bod y ddogfen ymgynghori wedi darparu digon o reswm a gwybodaeth i hwyluso ymgysylltiad, ystyriaeth ac ymateb gweithredol gan gydymffurfio'n llawn â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dywedodd Estyn fod Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn dros y cynnig i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar safle newydd yn Y Rhws. Mae Estyn wedi nodi hefyd bod y ddogfen ymgynghori a'r cynnig yn nodi manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig yn glir. Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried darpariaeth ar gyfer disgyblion presennol yn Ysgol Gynradd bresennol Llancarfan, ei disgyblion yn y dyfodol, yn ogystal â'r rheiny yn Ysgolion Cynradd Y Rhws, Llanfair a Sant Nicholas. Y rheswm am hyn yw y byddai'r cynllun arfaethedig i ailosod y dalgylchoedd presennol yn Y Rhws er mwyn gwneud lle i safle'r ysgol newydd yn effeithio ar ddisgyblion yn yr ysgolion hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i safonau addysgol, lleoedd ysgol dros ben, trefniadau teithio disgyblion, hygyrchedd y ddarpariaeth, ansawdd a chynaliadwyedd adeiladau ysgol, buddsoddiad ariannol a chostau cynnal a chadw.

Dywedodd Estyn hefyd fod y cynnig wedi ystyried y canlyniadau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn Ysgol Gynradd Llancarfan mewn ffordd briodol. Mae wedi manteisio ar ystod addas o dystiolaeth er mwyn gwneud hyn, gan gynnwys dadansoddiad byr o ddata ynghylch perfformiad yr ysgol dros y 3 blynedd ddiwethaf.

**Thema gwrthwynebu 8**

**Tynnodd ymatebydd sylw at wall o ran pellterau teithio. Nid yw'r llwyr a ddangosir ar gyfer Llanbydderi yn dangos llwybr o Lanbydderi ond yn hytrach o ben uchaf Pancross Hill yn Llancarfan.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Mae'r ddau lwybr eu nodi yn yr adroddiad ymgynghori ym mater 22, tudalen 26 at ddibenion cludiant i'r ysgol.

Maent yn dynodi'r llwybrau awgrymedig i'w defnyddio ar gyfer dau fws mini a fyddai'n gwasanaethu ardal Llancarfan a'r cyffiniau i safle'r ysgol wedi'i throsglwyddo yn y Rhws at ddibenion cludiant i'r ysgol. Bras amcanion yw'r pellterau ar gyfer y llwybrau awgrymedig i'r safle ar ôl trosglwyddo yn y Rhws a byddai unrhyw lwybrau a threfniadau cludiant terfynol yn cael eu cadarnhau y tymor cyn y byddai'r trefniadau hyn yn digwydd.

**Thema gwrthwynebu 9**

**Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai rhieni gael ad-daliad am ddarparu cyllid i gefnogi'r ysgol (cyllid ar gyfer neuadd yr ysgol).**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Dyfarnwyd grant i'r ysgol gan Lywodraeth Cymru dan y cynllun lleihau meintiau dosbarthiadau ryw 18 mlynedd yn ôl ac roedd yn dymuno defnyddio'r cyllid i adeiladu neuadd ysgol. Darparwyd cymorth ychwanegol gan rai rhieni

a’r gymuned ehangach. Mae cofnodion yn yr ysgol a’r Cyngor yn dynodi nad oes unrhyw gytundebau wedi’u llofnodi ynghylch cyllid na benthyciadau, ac nid oes tystiolaeth bod unrhyw arian yn ddyledus ac i fod i gael ei ad-dalu i rieni. Mae unrhyw arian a all fod wedi cael ei roi neu ei fuddsoddi yn yr ysgol wedi bod er budd y disgyblion, ac nid oes unrhyw statud cyfyngiadau yn eu lle mewn perthynas ag ad-dalu unrhyw gyllid yn dilyn ad-drefnu ysgol.

**Thema gwrthwynebu 10**

**Mynegodd ymatebwyr bryder bod y Cyngor yn anwybyddu polisi Llywodraeth Cymru ynghylch ysgolion gwledig. Dywedodd ymatebwyr fod Llancarfan yn ysgol wledig ac y dylid ei chadw ar agor.**

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 17, tudalen 14.

Mae'r cynnig yn newid a reoleiddir ar gyfer ysgol dan adran 2.2 y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn, ac nid yw'n cau ysgol.

a) addasiad rheoledig i Ysgol Gynradd Llancarfan, sef symud safle yr ysgol o Lancarfan i adeilad ysgol newydd ar dir i'r gogledd o'r rheilffordd yn Y Rhws;
b) newid a reoleiddir i gynyddu capasiti Ysgol Gynradd Llancarfan ar y safle newydd o 126 i 210 lle; a
c) addasiad rheoledig i newid ystod oedran isaf y disgyblion trwy ychwanegu dosbarth meithrin newydd sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan amser.

Ni fydd elfennau diwygiedig y Cod newydd a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2018 mewn perthynas â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig bach yn berthnasol i'r cynnig hwn. Lle mae cynigydd wedi cychwyn ymgynghoriad cyn 1 Tachwedd 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod yn rhaid i’r cynnig gael ei gyhoeddi a’i benderfynu yn unol â rhifyn cyntaf y Cod, ac mae hynny’n berthnasol i’r cynnig hwn.

Mae Llancarfan yn un o 6 ysgol yng nghlwstwr ysgolion gwledig y Fro sydd wedi bod yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru am y ddwy flynedd ddiwethaf trwy’r Grant Ysgolion Bach a Gwledig. Roedd £56,276 ar gael i Fro Morgannwg drwy’r grant hwn yn 2018/19. Roedd cynnig y Cyngor ar ran y clwstwr gwledig am y cyllid hwn yn llwyddiannus, gyda phob un o’r 6 ysgol yn cael £9,379 yr un.

Serch hynny, cydnabyddir y gallai tynnu ysgol o'i chymuned leol gael effaith debyg i gau ysgol ac felly mae hyn wedi cael ei ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned.

Er bod Llancarfan wedi cael ei chynnwys ar restr wledig, dim ond pe bai'n cael ei hystyried ar gyfer cael ei chau wedi i'r cod diwygiedig ddod i rym y byddai'n cael ei hystyried dan y categori hwn. Ni fyddai hyn yn digwydd yn achos Ysgol Gynradd Llancarfan dan y cod cyfredol a'r cod diwygiedig gan nad yw'n cael ei hystyried ar gyfer cael ei chau.

**Thema gwrthwynebu 11**

**Nododd ymatebwyr bryder nad oedd cylch chwarae Abracadabra wedi'i gynnwys yn y broses ymgynghori, ac y byddai'r cynnig wedi cael effaith uniongyrchol ar ei ddarpariaeth, ac felly y dylid bod wedi ymgynghori â'r cylch chwarae.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Mae Abracadabra wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o'r Bont-faen, tua 5.4 milltir o Lancarfan ac mae'n gorwedd yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Bont-faen yn y Bont-faen. Mae'r cylch chwarae'n darparu gofal plant ac addysg o ansawdd da ar gyfer plant dan bump yn Llanddunwyd. Nid yw'r cylch chwarae yn nalgylch Llancarfan, ac felly nid yw'n cael ei adnabod fel un sy'n gysylltiedig ag ardal Llancarfan. Ceir cylchoedd chwarae eraill sy'n agosach at Lancarfan. Ni wnaeth unrhyw blant sy'n byw yn ardal Llancarfan fynychu'r cylch chwarae yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Fe ymgynghorwyd â Phartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ynghylch y cynnig, ac mae Abracadabra yn aelod o'r bartneriaeth honno fel darparwr cofrestredig. Felly ni chafodd y cylch chwarae ei gau allan o'r ymgynghoriad ac nid oedd unrhyw reswm pam na allent fod wedi rhoi eu barn ynglŷn â'r cynnig.

Fe ymgynghorwyd â darparwr meithrinfa annibynnol yn y Rhws, nad yw'n rhan o Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, gan y gallai darpariaeth ychwanegol yn ardal y Rhws effeithio o bosibl ar niferoedd yn y cylch chwarae yn y dyfodol o ganlyniad i ddewis rhieni. Ni ystyriwyd fod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw gylchoedd chwarae eraill.

**Thema gwrthwynebu 12**

**Dywedodd ymatebwyr fod Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn eisiau o'r ymgynghoriad cyntaf neu fod pwyntiau hanfodol wedi'u hepgor ohono.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cynhaliwyd asesiad o’r effaith ar y gymuned fel rhan o’r ymarfer ymgynghori cyntaf. Codwyd nifer o bryderon yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyntaf ynghylch yr effaith ar yr ardal leol yn ogystal â chodi cwestiynau ychwanegol am y cynnig. Felly cynhaliwyd ail ymarfer ymgynghori i fynd i’r afael â phryderon ac i ddarparu rhagor o fanylion yn y ddogfen ymgynghori gan roi cyfle i randdeiliaid ystyried hyn o fewn terfyn amser newydd. Roedd peth o’r wybodaeth ychwanegol yn ymdrin â materion megis dyfodol adeilad yr ysgl, Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned wedi’i ddiweddaru ac ailgadarnhau’r addasiad rheoledig i’r ysgol trwy ei symud i safle newydd gyda rhagor o fanylion am y dewisiadau eraill a ystyriwyd.

Er mwyn sicrhau adborth ar yr effaith y byddai’r cynnig hwn yn ei chael ar y gymuned, aed ati ar y cyd â’r ysgol i ddatblygu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned a oedd yn fwy cadarn a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda busnesau lleol hefyd. Cafodd yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned ei ailystyried a’i ddatblygu ymhellach hefyd ar ôl cwblhau’r ail ymarfer ymgynghori.

Caiff dyletswydd gofal y Cyngor ei hadlewyrchu yn yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned a’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb er nad yw Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn ofyniad statudol ar gyfer y cynnig.

Mae’r Cyngor yn hyderus bod yr ail ymgynghoriad wedi ymdrin â nifer o’r pryderon a godwyd mewn mwy o fanylder ac wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i’r gymuned leol. Mae nifer o gamau lliniarol wedi cael eu hadnabod i gyfyngu ar yr effaith y byddai’r cynnig yn ei chael ar y gymuned.

| Cyf. | Cam Lliniarol | Canlyniad Dymunol |
|---|---|---|
| M1 | Cefnogi’r gymuned leol drwy fenter Cymunedau Gwledig Creadigol y Cyngor. Mae’r fenter Cymunedau Gwledig Creadigol wedi cefnogi cymunedau gwledig ledled Bro Morgannwg. | Mae menter Cymunedau Gwledig Creadigol yn cefnogi arloesedd mewn busnes i leihau effaith y cynnig hwn ar fusnesau lleol. Gall menter Cymunedau Gwledig Creadigol hefyd gefnogi archwilio ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau sydd o fudd i’r gymuned. |
| M2 | Rhoi gwybodaeth i’r gymuned leol am Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf y Cyngor. | Mae’r Gronfa Cymhorthdal Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Wirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg. Cyfanswm y gronfa yw £672,000 dros dair blynedd hyd fis Mawrth 2020. Gallai sefydliadau sy’n cael eu heffeithio gan y cynnig wneud cais am arian i gefnogi mentrau newydd i leihau’r effaith. |
| M3 | Gweithio gyda’r ysgol, y Corff Llywodraethu a’r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i gefnogi sefydliadau lleol a’r gymuned. | Gweithio gyda’r ysgol i gefnogi sefydliadau lleol drwy gyfeirio atynt ar y wefan ac anfon gwybodaeth i rieni. Gallai’r ysgol sydd wedi’i throsglwyddo barhau i gael perthynas gref gyda chymuned Llancarfan i leihau’r effaith. |

| | | |
|---|---|---|
| M4 | Ymgysylltu gydag arweinwyr yr ysgol, staff, y Corff Llywodraethu, rhieni, disgyblion a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd. | Gweithio'n agos gydag arweinwyr yr ysgol, staff, y Corff Llywodraethu, rhieni, disgyblion a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd i sicrhau ei fod yn bodloni eu hanghenion. Bydd hyn yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn ffurfio rhan o'r gymuned leol ac ehangach drwy wella'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt. Bydd yr ymgysylltiad hefyd yn ceisio lleihau effaith niweidiol y cynnydd mewn traffig. |

**Thema gwrthwynebu 13**

**Mae'n anghywir tybio y bydd cyfleusterau tra modern yn gwella addysg. Mynegodd ymatebwyr fod diffyg tystiolaeth o safonau addysg gwell.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 28, tudalen 34 a hefyd mater 40, tudalen 41.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n nodi targedau cyfredol yr ysgol ar gyfer gwella ac yn egluro sut y byddai'r cynnig yn cynorthwyo'r ysgol i wella. Mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynorthwyo dysgwyr i fodloni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Mae'r seilwaith a'r amgylchedd dysgu, gan gynnwys y cyfleusterau y tu mewn a'r tu allan a'r lle dysgu yn elfennau allweddol wrth gynorthwyo athrawon a dysgwyr. Adlewyrchir hyn yn nodau'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac yn uchelgais y Cyngor ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain sydd â mynediad llawn i dechnolegau'r Unfed Ganrif ar Hugain. Mae hyn felly'n rhan o strategaeth Genedlaethol ehangach, ac yn cael ei adlewyrchu yng Nghenhadaeth Ein Cenedl. Un o fanteision ychwanegol y cynnig hwn yw y byddai gofyn i'r staff neilltuo llai o amser, creadigrwydd ac ymyrraeth er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. Byddai hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio yn fwy ar gyflawniad, presenoldeb ac addysgeg, yn unol â'r targedau a restrwyd uchod.

Darparwyd ymatebion ychwanegol ym Mater 33, tudalen 37 hefyd sy'n darparu detholiadau o adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 sydd hefyd yn cyfeirio at yr ymchwil gan Brifysgol Salford, "The Clever Classrooms Project".

**Thema gwrthwynebu 14**

**Roedd ymatebwyr o'r farn bod llwyddiant cyfredol Ysgol Gynradd Llancarfan wedi cael ei 'fychanu' yn ystod yr ymgynghoriad.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 27, tudalen 33.

Gwerthuswyd y gallai Ysgol Gynradd Llancarfan gael budd o gael cymorth ychwanegol gan Gonsortiwm Canol De Cymru, yr Awdurdod Lleol ac ysgolion eraill.

Mae gan yr ysgol y targedau canlynol er mwyn sicrhau gwelliant:

- Parhau i weithio ar gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n sicrhau Lefel 5
- Gweithredu strategaethau er mwyn sicrhau bod perfformiad disgyblion ar Lefel 5 yn uwch na'r canolrif ac yn unol â'r perfformiad mewn Saesneg a gwyddoniaeth.
- Gwella presenoldeb er mwyn symud i safle meincnod sy'n uwch na'r canolrif
- Parhau i weithio gydag ysgolion clwstwr er mwyn symud addysgu Da i ragorol
- Diweddaru ei hadroddiad Hunanwerthuso yn unol â'r safonau diweddaraf
- Datblygu trefniadau pontio gwell ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6
- Ymgysylltu â NACE er mwyn gwella'r arfer ar gyfer y rhai Mwy Abl a Thalentog ymhellach ar draws yr ysgol.

Dan y system genedlaethol er mwyn categoreiddio ysgolion, gosodir pob ysgol mewn un o bedwar categori cymorth (gwyrdd, melyn, oren neu wyrdd) ac mewn un o blith 4 grŵp er mwyn gallu sicrhau gwelliant, (A-D), gydag A yn cynrychioli'r un uchaf o ran y capasiti i sicrhau gwelliant. Mae'r categori cymorth yn pennu lefel y cymorth y mae'r ysgol ei gael gan Gonsortiwm Canol De Cymru. Yn 2017-18, gosodwyd Llancarfan yn y grŵp melyn, a barnwyd bod y gallu i sicrhau gwelliant yn B, ar ôl iddi fod mewn categori cymorth oren yn flaenorol. Yn 2017-2018, gosodwyd 28 o blith 56 o ysgolion ym Mro Morgannwg yng nghategori cymorth gwyrdd. Am wybodaeth bellach am y cynllun categoreiddio, trowch at y canllaw i rieni am y System Genedlaethol Categoreiddio Ysgolion gan Lywodraeth Cymru:
http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pd

Trafodwyd hyn yn y Pwyllgor Craffu arbennig ar 15 Hydref 2018. Mae detholiad o'r cofnodion hyn wedi'i gynnwys isod er eglurder.

"Roedd yr Aelod Cabinet yn dymuno ychwanegu hefyd bod y pwynt a grybwyllwyd yn flaenorol ynglŷn â'r ffaith bod Ysgol Llancarfan wedi cael ei chategoreiddio'n felyn yn wrthrychol ac nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gadarnhau a fyddai'r categori hwn yn newid o gwbl pe bai'r ysgol yn symud. Er mwyn eglurhad, dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y cyfeiriad yr oedd hi wedi'i wneud at y ffaith bod yr ysgol wedi'i chategoreiddio'n felyn

dan system gategoreiddio Llywodraeth Cymru yn berthnasol am ei fod yn dangos bod gan yr ysgol le i wella. Roedd hi o'r farn y byddai'r cynnig yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni'r gwelliannau a nodir yn ei Chynllun Gwella Ysgol".

Barn y Cyngor yw y byddai'r cynnig yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni'r gwelliannau a nodir yn ei Chynllun Gwella Ysgol.

**Thema gwrthwynebu 15**

**Roedd ymatebwyr yn pryderu y bydd yn amhosibl i rieni gael mynediad at glybiau cyn ac ar ôl ysgol, ac y bydd Plant felly'n methu â chael mynediad at ran bwysig o addysg.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 50, tudalen 48.

Mae'r adroddiad yn hysbysu y gallai darpariaeth ar ôl ysgol weithredu o hyd a bod ar gael yn y neuadd gymunedol. Oherwydd y byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant o ardaloedd Llancarfan, Llanbydderi a Llancatal i'r ysgol a gaiff ei throsglwyddo, mae'n bosibl ar y daith gartref y byddai modd cludo plant i'r neuadd gymunedol er mwyn parhau gyda'u darpariaeth mewn clwb ar ôl ysgol.

Hefyd, o dan fater 42, tudalen 43 yn yr adroddiad ymgynghori, fe ailddatganodd y Cyngor ei ymrwymiad i gefnogi ein cymunedau a dywedodd y byddai'n ceisio cydweithio'n agos gyda'r sefydliadau a enwir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i leihau unrhyw effaith negyddol i'r eithaf. Byddai Corff Llywodraethu'r ysgol hefyd yn cael ei annog i gynnal y cysylltiadau hyn â'r mudiadau cymunedol lle maent yn cefnogi ethos a rheolaeth yr ysgol mewn modd cadarnhaol.

Hefyd, cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 30 ar dudalen 36. Cydnabyddir bod y staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r safle yn Llancarfan yn heriol, fodd bynnag, a cheir enghreifftiau o'r athrawon yn cael anhawster wrth reoli darpariaeth y cwricwlwm. Amlinellwyd pryderon TGCh ym mater 27, ac mae enghraifft arall yn ymwneud â chwaraeon. Cafwyd adborth yn ystod y digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghylch yr anawsterau wrth addysgu rhai chwaraeon tîm fel Criced ar gwrt tenis cyfyngedig. Yn ogystal, mae cyfyngiadau safle'r ysgol yn golygu y bu'n rhaid i staff osod matresi yn erbyn y waliau am resymau iechyd a diogelwch yn ystod y diwrnod mabolgampau er mwyn atal disgyblion rhag rhedeg i mewn i waliau ac anafu eu hunain yn ystod rasys. Budd ychwanegol y cynnig hwn yw y byddai'r amgylchedd dysgu a fyddai'n cael ei ddarparu yn yr adeilad ysgol newydd yn gofyn am lai o ymyrraeth gan staff er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio. Byddai hyn yn eu galluogi i ganolbwyntio'n fwy ar gyflawniad, presenoldeb ac addysgeg.

**Thema gwrthwynebu 16**

**Dywedodd ymatebwyr nad oedd gan Estyn unrhyw bryderon ynghylch yr adeiladau na'r safle. Roedd Ysgol Gynradd Llancarfan wedi cael adroddiad da gan Estyn hefyd.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 29, tudalen 35.

Mae gan Estyn gyfrifoldeb dros adrodd am eu canfyddiadau mewn ysgol. Nid oes gofyn iddynt argymell y dylid symud i safle newydd. Maent, fodd bynnag, wedi cydnabod yn eu hymateb i'r cynnig hwn "nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau a nodir yn y fframwaith statudol ar gyfer adeiladau ysgol a dylunio yng Nghymru, a bod y llwybrau trwy'r pentref a'r lonydd er mwyn cyrraedd yr ysgol yn orlawn." Yn ogystal, maent yn cydnabod bod "maint safle yr ysgol yn gyfyngedig".

Ymgynghorwyd ag Estyn am y cynnig ac maent wedi ymateb mewn ffordd gadarnhaol i'r cynnig, gan ddynodi bod Cyngor Bro Morgannwg wedi cyflwyno rhesymeg gadarn dros y cynnig i greu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, gan ychwanegu 48 o leoedd meithrin rhan-amser ar safle newydd yn Y Rhws.

Dywedodd Estyn hefyd fod y cynnig wedi ystyried y canlyniadau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn Ysgol Gynradd Llancarfan mewn ffordd briodol. Mae wedi manteisio ar ystod addas o dystiolaeth er mwyn gwneud hyn, gan gynnwys dadansoddiad byr o ddata ynghylch perfformiad yr ysgol dros y 3 blynedd ddiwethaf.

**Thema gwrthwynebu 17**

**Roedd ymatebwyr yn pryderu bod y cynnig yn effeithio ar niferoedd cyfredol yr ysgol a bod darpar rieni'n dewis ysgolion/ardaloedd eraill. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng yn yr ysgol o ganlyniad i'r ymgynghoriad.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 5, tudalen 8.

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y capasiti dros ben yn cynyddu i 28 lle (22%) dros y bum mlynedd nesaf. Nid yw hyn yn ystyried unrhyw effaith y cam o symud Ysgol Gynradd Llancarfan i'r safle newydd. Ceir gostyngiad yn y nifer sy'n cychwyn yn y dosbarth derbyn yn Llancarfan ym mis Medi 2018, ond ni ellir priodoli hyn i'r cynnig. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r dosbarth derbyn oedd 8 Ionawr 2018, a oedd cyn lansio'r cynllun. Gallai'r niferoedd ostwng yn y dyfodol o ganlyniad i'r ymgyrch leol yn erbyn y dybiaeth bod yr ysgol yn cael ei chau. Gallai hyn arwain at rai rhieni yn dewis ysgolion amgen. Gan gydnabod hyn, mae'r Cyngor wedi cynnig diogelu'r cyllid i'r Corff Llywodraethu er mwyn cynnal yr ysgol yn y cyfamser.

**Thema gwrthwynebu 18**

**Mynegodd ymatebwyr bryderon bod y cynnig yn ffafrio plant/teuluoedd crefyddol dros blant/teuluoedd nad ydynt yn grefyddol ac yn lleihau rhyddid dewis i rieni anfon eu plant i ysgolion nad ydynt yn grefyddol. Soniwyd am fynediad at Ysgol Gyfun y Bont-faen fel enghraifft.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 4, tudalen 7.

Mae gan Ysgol Gyfun y Bont-faen ddeg ysgol gynradd bwydo sy'n gwasanaethu'r ysgol, y mae pedair ohonynt yn ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru sy'n rheoli eu polisi derbyn eu hunain a'u derbyniadau eu hunain i'r ysgol. Felly, gall rhieni nad ydynt am gael mynediad at ysgol grefyddol sy'n bwydo Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer eu plentyn gyflwyno cais i Ysgol Gynradd y Bont-faen, Ysgol Gynradd Llanfair, Ysgol Gynradd Llangan neu Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae'r holl ysgolion bwydo yn ysgolion cynhwysol sy'n gwasanaethu Ysgol Gyfun y Bont-faen heb unrhyw duedd o blaid credoau crefyddol. Mae'r ysgolion enwadol yn gwasanaethu eu pentref a'u cymunedau lleol, waeth beth fo'r ffydd a'r enwad. Gall rhieni y mae eu plant yn mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru ddewis i'w plant fynychu ysgol uwchradd enwadol neu anenwadol.

**Thema gwrthwynebu 19**

**Mynegodd ymatebwyr bryder o ystyried y ffaith bod Ysgol Gynradd Llancarfan wedi denu teuluoedd ifainc i'r pentref sydd wedi helpu i gefnogi gwasanaethau cymunedol hanfodol a chadw'r gymuned yn fyw, gan ddweud y bydd demograffeg y pentref yn newid yn negyddol o ran cynyddu'r oedran a chan leihau amrywiaeth y boblogaeth.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, tudalen 17.

Mae adborth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad yn awgrymu na fyddai teuluoedd yn cael eu denu i fyw yn Llancarfan oherwydd bod yr ysgol yn cael ei throsglwyddo. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn nodi bod nifer o gymunedau cryf ledled Bro Morgannwg nad ydynt o fewn pellter cerdded i ysgol, y mae teuluoedd yn cael eu denu'n fawr atynt. Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan boblogaeth Llandŵ, Sain Dunwyd a Llanddunwyd oed cymedrig tebyg i Lancarfan, er nad oes ysgol gynradd yn y pentref.

**Thema gwrthwynebu 20**

**Gofynnodd ymatebydd am help i gynorthwyo'r ysgol i gynnal y Trysor Sirol hwn. Gwerth hanesyddol y safle fel Trysor Sirol.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 49, tudalen 48.

Cydnabuwyd fod y safle wedi’i leoli yn Ardal Gadwraeth Llancarfan ac fe'i nodir yng Nghynllun Rheoli ac Arfarniad Ardal Gadwraeth Llancarfan fel 'adeilad cadarnhaol' gan ei fod yn cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth mewn ffordd gadarnhaol. Nodwyd a chynhwyswyd yr adeilad yn rhestr 'Trysorau Sirol' y Cyngor. Byddai unrhyw gynigion cynllunio yn y dyfodol ynghylch adeilad yr ysgol yn gorfod ystyried ei statws fel Trysor Sirol, law yn llaw â chydymffurfiaeth glir gyda'r polisïau a'r rheoliadau sydd mewn grym ynghylch adeiladau sy'n meddu ar y statws hwn.

**Thema gwrthwynebu 21**

**Mynegodd ymatebwyr bryder y bydd angen i rieni gymudo mewn cyfeiriad croes, a allai effeithio ar eu swyddi neu eu gorfodi i adleoli.**

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 1, tudalen 5.

Byddai cludiant i’r ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy’n byw yn Llancarfan a’r cyffiniau a hynny yn unol â pholisi’r Cyngor ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol. Byddai trefniadau cludiant i’r ysgol ar gael i rieni o ardaloedd Llancarfan a’r cylch er mwyn i’w plant fynychu’r ysgol a adleolwyd yn y Rhws. Ni fyddai hyn yn golygu bod angen i rieni gymudo yn bellach o gwbl na’u trefniadau ar hyn o bryd. Efallai y bydd gan rai rhieni lai o bellter i’w deithio nad oedd ar gael iddynt yn flaenorol.

Nid yw’n bosibl i’r Cyngor ddatblygu cynigion ynghylch trefniadaeth ysgolion yn seiliedig ar amgylchiadau personol rhieni megis lleoliad gweithio. Mae cludiant am ddim i’r ysgol ar gael i ddisgyblion cynradd o’r mis Medi wedi iddynt droi’n 4 os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy i ffwrdd o’u hysgol.

**Thema gwrthwynebu 22**

**Mynegodd ymatebwyr bryder y bydd effaith negyddol ar y pentref o ran ei gynaliadwyedd yn y dyfodol gan y bydd darpar drigolion yn dewis ardaloedd/ysgolion eraill.**

**Ymateb y Cyngor i’r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym mater 11, tudalen 11.

Roedd yr adran hon yn cydnabod bod y ffigyrau ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan ar safle newydd yn y Rhws yn seiliedig ar niferoedd cyfredol y disgyblion ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan ac y gallai'r rhain newid. Fodd bynnag, er bod gan rieni yr hawl i fynegi eu dewis fel rhieni a newid ysgolion, ni ellir gwarantu y bydd modd bodloni'r dewisiadau hynny. Mae derbyn cais i drosglwyddo i ysgol amgen yn dibynnu ar y ffaith bod lleoedd ar gael mewn ysgolion eraill. Er mai'r gobaith yw y bydd pob disgybl yn parhau i fynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl symud i safle newydd, dylid nodi bod argaeledd lleoedd cynradd er mwyn hwyluso trosglwyddiad i ysgol amgen yn gyfyngedig yng Ngorllewin y Fro.

Cyfeiriwyd at hyn hefyd yn yr adroddiad ymgynghori o dan fater 44, tudalen 45 lle cydnabuwyd fod rhai rhieni wedi dewis anfon eu plant i Lancarfan oherwydd ei hethos a maint fel ysgol fach. Roedd yr adroddiad hefyd yn mynegi pryder ynghylch lleoedd gwag presennol yn yr ysgol. “Dros y tair blynedd ddiwethaf, ar gyfartaledd mae 4 o blant wedi cael eu geni yn nalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan bob blwyddyn o gymharu â'r 18 o leoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn. Mae gan yr ysgol boblogaeth o 55 o blant yn y dalgylch ac 126 o leoedd. Dim ond 29 o'r 55 o blant oedran cynradd sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol”.

Darparwyd ymatebion ychwanegol mewn perthynas â'r gwrthwynebiad hwn hefyd dan Fater 39, tudalen 41 yn yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn ailddatgan bod nifer o resymau pam fod rhieni'n dewis ysgolion ac y byddai pryderon ynghylch colli ethos gwledig Ysgol Llancarfan yn cael sylw yn y broses ddylunio. Yn benodol, bydd pob safle ysgol newydd yn cynnwys ardal goedwig er mwyn sicrhau bod y profiad dysgu yn manteisio i'r eithaf ar yr awyr agored. Byddai'r Cyngor yn gweithio gydag Ysgol Goedwig Cymru i sicrhau bod darpariaeth Ysgol Goedwig gynaliadwy ar gael a gefnogir gan rwydwaith genedlaethol a fydd yn meithrin y gwaith o ddatblygu projectau, cynnig cyngor, darparu adnoddau, llywio arfer gorau a pharhau i gynnig datblygiad proffesiynol parhaus yn yr ysgol.

**Thema gwrthwynebu 23**

**Mynegodd ymatebwyr bryder ynghylch y diffyg seilwaith i ateb y galwadau a ragwelir yn y Rhws, ac yn gyffredinol, ac roeddent yn pryderu ynghylch tagfeydd traffig yn yr ardal.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn yr adroddiad ymgynghori am y cynnig ym materion 21, tudalen 25, a 22, tudalen 26.

Cymeradwyodd y Cyngor ddatblygiad yn ardal Y Rhws fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol 2011 – 2026 y Cyngor.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r goblygiadau i draffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu ar gyfer yr ysgol. Fel rhan o'r broses ddylunio, byddai cynllun rheoli trafnidiaeth yn cael ei ddatblygu, a fyddai'n cynnwys mewnbwn gan swyddogion priffyrdd.

Byddai darpariaeth barcio ar y safle yn cael ei hystyried wrth ddylunio'r ysgol newydd.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, cyflwynir cais cynllunio i adeiladu ysgol a fydd yn cynnwys 210 o leoedd ar y datblygiad newydd. Mae adran y priffyrdd yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, a fydd yn cynnig sylwadau diduedd manwl am y cynnig. Byddai hyn yn cynnwys argymhellion pe byddai gofyn gwneud gwelliannau i rwydwaith y ffyrdd, oherwydd y byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu i'r ysgol o ardal Llancarfan, Llancatal a Llanbydderi.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cael cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer gwaith ar y priffyrdd ac ar gyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy mewn perthynas â'r datblygiad i'r gogledd-orllewin. Mae cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy yn cynnwys gwybodaeth, cyfleusterau, gwasanaethau neu brosiectau sy'n darparu neu sy'n gwella'r mynediad i gerddwyr, beicwyr, defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus, beiciau modur, tacsis neu'r rhai sy'n rhannu teithiau mewn car yng nghyffiniau'r safle ac o fewn terfynau ward Y Rhws. Bydd hyn yn cynnwys mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn Y Rhws.

Fel rhan o gais cynllunio, byddai asesiad o'r effaith ar draffig yn cael ei gynnal er mwyn ystyried pa welliannau y byddai angen eu gwneud i seilwaith presennol y ffyrdd.

**Thema gwrthwynebu 24**

**Mynegodd ymatebwyr bryder nad yw cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi dod i law yn llawn i gyllido'r cynnig a'r newid ganran cyllid yr Awdurdod Lleol.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn ar dudalennau 26 a 31 yn y ddogfen ymgynghori ynghylch y cynnig.

Ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynodd y Cyngor ei Raglen Amlinellol Strategol (SOP) i Lywodraeth Cymru, yn nodi'r prosiectau a oedd wedi'u cynnwys yn y rhaglen Band B.

Ar 10 Tachwedd 2017, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams fod cynigion y Cyngor yn cyflawni amcanion buddsoddi Llywodraeth Cymru ac yn amodol ar gymeradwyo'r achosion busnes unigol, bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gefnogi'r holl brosiectau a gyflwynwyd. Cafodd hyn ei gadarnhau'n ysgrifenedig ar 6 Rhagfyr 2017.

Ar 22 Ionawr 2018, fe gymeradwyodd y Cabinet gam Band B arfaethedig Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Roedd y cyllid ar gyfer y prosiectau'n seiliedig ar gyfradd ymyrryd ddisgwyliedig gan Lywodraeth Cymru o 50% ar gyfer cynlluniau ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd ac 85% ar gyfer cynlluniau ysgolion ffydd a Gynorthwyir yn Wirfoddol.

Ar 21 Tachwedd 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a CLlLC ddatganiad ar y cyd a oedd yn cyhoeddi newid i gyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd yn cynyddu o 50% i 65%. Cyflwynwyd cyfradd ymyrryd newydd ar gyfer cyfleusterau i'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion, sef cyllid o 75% gan Lywodraeth Cymru.

Pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynnig, byddai Achos Cyfiawnhad Busnes yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i sicrhau'r cyllid ar gyfer y prosiect. Mae'r dull hwn yn gyson â phrosiectau blaenorol.

**Thema gwrthwynebu 25**

**Dywedodd ymatebwyr fod y newid yn y gyfradd ymyrryd ar gyfer cyllid Band B yn achosi i'r wybodaeth yn y ddogfen Ymgynghori fod yn anghywir. Felly dylid ailystyried tybiaethau ariannol gan gynnwys hyfywedd dewisiadau eraill yng ngoleuni'r newid i'r gyfradd ymyrryd ar gyfer cynlluniau Band B.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Ar 21 Tachwedd 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a CLlLC ddatganiad ar y cyd a oedd yn cyhoeddi newid i gyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ysgolion nad ydynt yn ysgolion ffydd yn cynyddu o 50% i 65%. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai cynnydd i'r cwmpas cyllid ar y cyfan ar gyfer pob Awdurdod Lleol. Gan na fydd cynnydd yn y cwmpas cyllid ar y cyfan, nid oedd angen ailystyried cynlluniau unigol.

Ar 7 Ionawr 2019, rhoddodd Cabinet y Cyngor ystyriaeth i'r rhaglen ddiwygiedig yng ngoleuni'r newid hwn. Bydd cyfanswm y cyllid cyfalaf ar gyfer y Ddarpariaeth Gynradd yng nghynllun Gorllewin y Fro yn dal i fod yn £4.185m gydag £1.465m yn cael ei gyllido gan y Cyngor a £2.720m yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

**Thema gwrthwynebu 26**

**Mynegodd ymatebwyr bryder y byddai effaith negyddol ar y gymuned a busnesau lleol yn Llancarfan.**

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd:**

Cyfeirir at y mater hwn yn y fersiwn derfynol a gyhoeddwyd o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, tudalennau 9 i 28.

Cafodd yr Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar y Gymuned ei ddiweddaru i adlewyrchu ymatebion a gafwyd ac fe'i hailgyhoeddwyd fel rhan o'r ail ymarfer ymgynghori. Cydnabuwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned y byddai rhywfaint o effaith negyddol yn y gymuned leol ac ar fusnesau lleol. Cyfeiriwch

at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i gael rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i gefnogi ein cymunedau ac er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posib, byddai’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda’r ysgol ac aelodau’r gymuned i gefnogi busnesau a digwyddiadau lleol gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gyfeirio pobl atynt drwy wefan yr ysgol. Byddai’r Cyngor yn parhau i gefnogi cymuned Llancarfan drwy ei fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, lle y mae’r Cyngor yn cefnogi cymunedau a mentrau i ddatblygu projectau a syniadau arloesol a fydd yn creu buddiannau cymdeithasol ac economaidd hirdymor. Mae’r Gronfa Grantiau Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol a Chynghorau Tref a Chymuned tuag at gost mentrau ym Mro Morgannwg sy’n helpu i gefnogi gweledigaeth y Cyngor i greu “cymunedau cryf â dyfodol disglair”. Mae’r gronfa grantiau’n werth £672,000 dros dair blynedd tan fis Mawrth 2020. Nod y gronfa yw:

- Gwella cydnerthedd sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau trwy gyllido gweithgareddau sy’n ychwanegu gwerth at eu gwaith cyfredol ac yn lleihau eu dibyniaeth ar gyllid grant yn y dyfodol. Darparu cyllid sbarduno tuag at fentrau sy’n gallu dangos cynaliadwyedd mwy hirdymor.
- Gwneud gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithgarwch a chynigion am gyllid yn y dyfodol.
- Talu costau cyfalaf cynlluniau trwy brynu cyfarpar, peiriannau, offer neu asedau eraill.
- Gwneud gwaith a fyddai’n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu, er enghraifft trwy botensial i greu mwy o incwm.
- Agor cyllid Adran 106 i gymunedau penodol lle mae datblygiadau wedi digwydd.

Bydd cyllid ar gyfer cyfleusterau a phrosiectau mannau agored mewn ardaloedd penodol yn cael ei gyhoeddi pan fo pob cylch yn cael ei agor ar gyfer ceisiadau.
Cefnogi prosiectau arloesol ac ar raddfa fach.

Cynnig ar gyfer byd addysg sy’n amcanu at fynd i’r afael â materion penodol o ran capasiti mewn ysgolion yng Ngorllewin y Fro yw’r cynnig hwn. Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan mai “darparu addysg yw prif ddiben ysgolion”. Felly nid yw’n rhesymol disgwyl i ysgolion a disgyblion ysgwyddo baich ehangach yr effaith ar y gymuned. Yn y pen draw, nid materion addysgol yw ffactorau economaidd a chymdeithasol ac ni ellir gadael iddynt beryglu addysg plant. Fodd bynnag, byddai’r Cyngor yn parhau i gefnogi’r cymunedau cysylltiedig, pe bai’r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, mewn amryw ffyrdd i sicrhau bod unrhyw effaith negyddol a ganfuwyd yn cael ei lleihau i’r eithaf.